



Annwyl [first name],

A allai eich taith yn [provider name] ysbrydoli myfyrwyr heddiw? Carem wybod, felly ar ddechrau mis Medi, byddwch yn derbyn e-bost gan HESA yn eich gwahodd i gymryd rhan yn **arolwg Hynt Graddedigion**. Mae hwn yn arolwg cenedlaethol a fydd ond yn cymryd **deng munud** o'ch amser a'i nod yw dal a deall cyrchfannau graddedigion ar ôl eu cyfnod mewn addysg uwch.

Rydym yn falch o ddweud mai Hynt Graddedigion yw'r arolwg cymdeithasol blynyddol mwyaf yn y DU! Ers ei lansio ym mis Rhagfyr 2018, mae dros **XX,XXX** o'ch cyd-graddedigion o 'ddosbarth 2018' wedi cwblhau'r arolwg a hoffem ichi ymuno â nhw. Mae'r arolwg hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar fyfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol i wneud dewisiadau gwybodus ac mae'n helpu [provider name] i werthuso a hyrwyddo ei gyrsiau.

Fel un a raddiodd yn ddiweddar o [provider name], byddwch wedi cwblhau cwrs addysg uwch (neu ran ddigonol) oddeutu 15 mis yn ôl. Mae hyn yn eich gwneud yn gymwys ar gyfer cwblhau'r darn hanfodol hwn o ymchwil ac mae angen inni glywed oddi wrthy ch pan fyddwn yn agor yr arolwg.

### Byddwch yn rhan o'r darlun

Cyn bo hir, byddwch yn derbyn gwahoddiad trwy neges e-bost i gymryd rhan gan y tîm Hynt Graddedigion o'r cyfeiriad hwn – efallai bydd yn ddoeth ein hychwanegu fel cyswllt er mwyn sicrhau eich bod yn ei dderbyn.

Bydd hwn yn cynnwys **dolen arolwg ddiogel** sy'n unigryw i chi. Defnyddiwch hon i gwblhau'r arolwg ar-lein ar unrhyw ddyfais – bydd ond yn cymryd deng munud a bydd eich mewnwleidiad yn helpu myfyrwyr y dyfodol.

Byddwch  
yn rhan o'r  
darlun

Efallai y byddwch hefyd yn derbyn negeseuon testun gan 'GradOutcome' a galwadau fel eich bod yn gallu cwblhau'r arolwg dros y ffôn.

### Ynglŷn â'r arolwg

Mae cyrff cyllido a rheoleiddio'r DU yn mynnu bod HESA (Higher Education Statistics Agency Ltd) a darparwyr addysg uwch yn cydweithio i gwblhau arolwg Hynt Graddedigion.

Hoffwn roi gwybod i chi hefyd sut y cawsom eich manylion cyswllt. Mae angen i [Provider name] weithio gyda HESA ac, fel rhan o hyn, mae wedi darparu'r manylion cyswllt sydd ganddo ar eich cyfer at ddiiben cynnal yr arolwg yn unig.

Mae HESA yn trin diogelwch gwybodaeth yn ddifrifol iawn ac mae'n ymrwymedig i gadw'ch data yn ddiogel. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am breifatrwydd sy'n esbonio fwy ynghylch sut y bydd eich manylion cyswllt ac ymatebion i'r arolwg yn cael eu defnyddio.

Dysgwch fwy am arolwg Hynt Graddedigion, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, yn [cy.graduateoutcomes.ac.uk](http://cy.graduateoutcomes.ac.uk), neu dewch o hyd inni ar [Twitter](#) a [LinkedIn](#).

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r arolwg!

Cofion gorau,  
**Rob Phillpotts**  
Managing Director HESA Statutory  
Higher Education Statistics Agency Ltd